# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Paulette Smith | Adran Etholiadol: | Clydach |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliais gymorthfeydd ar 3ydd dydd Sadwrn y mis yng Nghlydach.

Tynnais sylw'r adrannau perthnasol at bryderon, problemau a chwynion etholwyr er mwyn iddynt ddatrys y problemau.

Cefais gyfarfodydd rheolaidd â sarsiant ac arolygydd yr heddlu lleol ynghylch problemau yn y ward.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir y % presenoldeb sy'n seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygu Ardal 1 | 4 | / | 7 | 57 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Fusnes a Gweinyddiaeth | 1 | / | 2 | 50 | % |
| Cyngor | 14 | / | 17 | 82 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 3 | / | 7 | 43 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar yr Economi a Buddsoddi | 2 | / | 3 | 67 | % |
| Panel Llywodraethwyr yr All | 3 | / | 8 | 38 | % |
| Panel yr Ymddiriedolwyr | 3 | / | 3 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **30** | **/** | **47** | **64** | **%** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarfodydd Craffu: | | | | | |
| Panel Perfformiad Craffu Lles | 4 | / | 6 | 67 | % |
| **CYFFREDINOL** | **4** | **/** | **6** | **67** | **%** |

Sylwer yr effeithiwyd ar fy nghofnod presenoldeb yn ystod y cyfnod hwn oherwydd roedd fy merch yn ddifrifol sâl.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Hyrwyddwr Cynghorydd dros Ofalwyr.

Rwy'n llywodraethwr ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd ac Ysgol Iau Clydach ac Ysgol Gatholig St Joseph.

Cynrychiolydd y cyngor ar Heddlu De Cymru a'r Panel Troseddu.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Cefais gyfarfodydd rheolaidd ag aelodau'r Cabinet a swyddogion ynghylch materion y ward - mesurau tawelu traffig, goleuadau stryd, parcio, tyllau yn y ffordd, baw cŵn a sbwriel.

Gweithiais gydag Aelod Cynulliad Gŵyr ac Aelod Seneddol Gŵyr ynghylch y materion a godwyd gan etholwyr.

Es i amrywiaeth o gyfarfodydd a digwyddiadau yn fy rôl fel gofalwr gan gynnwys cyfarfodydd â'r gweinidog yn y Cynulliad, cynadleddau i ofalwyr a chyfarfodydd rheolaidd â swyddogion y cyngor.

Es i gyfarfodydd yn fy rôl fel aelod o Heddlu De Cymru a'r Panel Troseddau.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Rwyf wedi bod i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

13/10/2014 - Diogelu
05/08/2014 - Cynnwys y Cyhoedd
23/07/2014 - Rhyddid Gwybodaeth
03/07/2014 - Diogelu Data (gan gynnwys rôl fel Rheolwr Data)

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Es i amrywiaeth o ddigwyddiadau yn y ward gan gynnwys digwyddiadau yn yr ysgol lle'r wyf yn llywodraethwr.

Trefnais i flodau gael eu rhoi yn y pentref gan ddefnyddio fy lwfans gwella'r amgylchedd cynghorwyr.

Rwy'n Llywydd y Clwb Ifanc am Byth.

Mae fy rhifau ffôn cartref a symudol ar gael i'm hetholwyr gysylltu â mi unrhyw bryd.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 07.10.15 |